


“Rwyf wedi mwynhau gwella ar fy sgiliau digidol wrth astudio'r pwnc hwn. Mae'r sgiliau rydw i wedi'u dysgu wrth astudio'r pwnc hwn yn sgiliau a fydd yn fy helpu yn y dyfodol, yn enwedig yn y brifysgol. Roedd agwedd theori'r cwrs hefyd yn ddiddorol a dysgu am ystod o wahanol bynciau o fewn technoleg. Mae'n fy niddori i weld sut y bydd technoleg yn datblygu yn y dyfodol.”

Elliw Rowlands



# Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

## Pam astudio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu?

Pa yrfa bynnag y byddwch yn ei dilyn yn y dyfodol, bydd sgiliau a chysyniadau TGCh yn fuddiol, neu hyd yn oed yn hanfodol. Nod y cwrs hwn yw eich gwneud yn ddefnyddiwr TGCh hyderus a chymwys, gyda dealltwriaeth o ddefnydd ac effaith cyfrifiaduron yn y gymdeithas sydd ohoni.

## Gofynion y cwrs

Bydd gradd C mewn TGAU TGCh yn sicrhau lle i chi ar y cwrs ond os nad ydych wedi dilyn cwrs TGAU yna dewch i weld y Pennaeth Adran neu Bennaeth y Chweched am sgwrs.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG

**IT1: Systemau Gwybodaeth** (Arholiad Ysgrifenedig – 2 awr 15 munud) [24%]
Mae IT1 yn cynnwys testunau megis: Data, Gwybodaeth a Gwybod; Gwerth a phwysigrwydd gwybodaeth o ansawdd da; Ansawdd gwybodaeth, Dilysu a gwireddu; Manteision a chyfyngiadau TGCh; Defnyddio TGCh: Busnes, Addysg, Iechyd, Cartref, Roboteg, Rhyngrwyd pethau amrywiol; Cyflwyno Gwybodaeth; Rhwydweithiau; Rhyngwyneb Cyfrifiadur-Dyn; Materion Cymdeithasol; Systemau Cronfa Ddata
Bydd gofyn i ymgeiswyr hefyd baratoi taenlen ar destun penodol, wedi'i ddiffinio gan CBAC, cyn cymryd y papur ysgrifenedig. Cymerir copïau caled o'r daenlen i mewn i'r arholiad ac fe'u defnyddir i ateb cwestiynau yn adran B. Cyflwynir y daenlen hon gyda'r papur arholiad gorffenedig i'r arholwr.

**IT2: Cyflwyno Gwybodaeth (Asesiad Mewnol)** [16%]
Mae'r ymgeiswyr yn ymgymryd â 3 tasg o fewn yr uned hon, gan gynnwys DTP, dogfennau awtomataidd a thasgau amlgyfrwng.

**Uwch** (yr uchod a 2 uned ychwanegol)
**IT3: Y Defnydd o TGCh a'i Heffaith**
(Arholiad Ysgrifenedig – 2 awr 30 munud) [36%]
Mae IT3 yn cynnwys testunau megis: Rhwydweithiau Cyfrifiadurol, Y Rhyngrwyd (Rhannu Gwybodaeth, Gwasanaethau Cyfrifiaduro Cwmwl, E-Fasnach, Materion Moesol, Cymdeithasol a Moesegol yn ymwneud â'r Rhyngrwyd); Rhyngwyneb Cyfrifiadur-Dyn; Gweithio gyda TGCh; Polisïau Diogelwch TGCh; Data a phwysigrwydd gwybodaeth; Systemau Cronfa Ddata Perthynol; Rheoli Newid; Systemau Gwybodaeth Rheoli; Cylchred Oes Datblygu System
**IT4: Project Cronfa Ddata Berthynol** (Asesiad Mewnol) [24%]
Mae'r ymgeiswyr yn dadansoddi, dylunio, gweithredu, profi a gwerthuso cronfa ddata berthynol o'u dewis nhw.

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Bydd sgiliau TGCh yn angenrheidiol ar gyfer y mwyafrif o swyddi.

- Gweinyddwr Cronfa Ddata
- Technegydd Cefnogi TG
- Gweithredydd Desg Gymorth
- Newyddiadurwr
- Ymchwilydd Cyfryngau
- Swyddi Cofnodi Data
- Hyfforddwr TG/Athro
- Diogelwch rhwydwaith/seibr
- Dylunydd/Datblygydd Gwe/Gwefeistr
- Datblygydd Gemau Cyfrifiadurol
- Datblygydd Meddalwedd
- Peiriannydd Rhwydwaith
- Dadansoddwr Systemau
- Rheolwr rhwydwaith
- Peilot Drôn
- Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol